

# Gwers 39 – Mae Iesu'n fyw!

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Ioan 20:1–9

**B**u Iesu farw am 3 o'r gloch y prynhawn, hynny yw, nid oedd ond tair awr hyd nes y byddai Saboth y Pasg yn dechrau. Yn ôl y Gyfraith, ni chaniateid i gorff hongian ar groesbren dros y Saboth, a gofynnwyd i Pilat am ganiatâd 'am gael torri coesau'r rhai a groeshoeliwyd, a chymryd y cyrff i lawr, rhag iddynt ddal i fod ar y groes ar y Saboth, oherwydd yr oedd y Saboth hwnnw yn uchel wyl' (Ioan 19:31).

Gorffwysodd corff Iesu yn y bedd ar y Saboth ac atgyfodi ar ddydd cyntaf yr wythnos. Cedwid y Saboth i gofio am Dduw yn gorffwyso ar ôl y Creu tra bod dydd cyntaf yr wythnos, neu ddydd yr Arglwydd, neu ddydd Sul, yn cofio atgyfodiad Iesu o'r bedd yn fyw.

Nid oes disgrifiad o'r atgyfodiad yn yr efengylau oherwydd ni welodd neb mo'r digwyddiad, ond y mae'r efengylwyr yn pwysleisio ei bwysigrwydd, er mewn ffyrdd gwahanol. Y mae'r Atgyfodiad yn hanfodol i stori Iesu ac i Stori Duw, ac yn athrawiaeth ganolog y ffydd Gristnogol. Profaf'r atgyfodiad fod Iesu Grist yn Fab Duw, fel y dywedodd Pedr ar y Pentecost, 'Yr Iesu hwn a gyfododd Duw, rhywbeth yr ydym ni oll yn dystion ohono.....Felly gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi gwneud yn Arglwydd ac yn Feseia, yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi.' (Act. 2:32, 35). Cytuna Paul yn ei lythyr at y Rhufeiniaid pan ddywed, 'ond yn nhrefn sanctaidd yr Ysbryd, cyhoeddwyd ef (Iesu) yn Fab Duw, â mawr allu, trwy atgyfodiad o farwolaeth. Dyma Iesu Grist ein Harglwydd.' (Rhuf. 1:4).

Ar y trydydd dydd, dywed Ioan, pan gyrhaeddodd ef y bedd, ' gwelodd y llieiniau yn gorwedd yno, ond nid aeth i mewn' (Ioan 20:5). Aeth Pedr i mewn a gweld y llieiniau 'a hefyd y cadach oedd wedi bod am ei ben ef: nid oedd hwn yn gorwedd gyda'r llieiniau, ond ar wahân, wedi ei blygu ynghyd' (Ioan 20:7). Atgyfodwyd Iesu ond nid fel rhai o'i flaen. Pan ddaeth Lasarus o'r bedd roedd ei 'draed a'i ddwylo wedi eu rhwymo â llieiniau, a chadach am ei wyneb.' (Ioan 11:44), hynny yw yn ei gorff naturiol. Newidiwyd corff naturiol Iesu yn gorff ysbrydol a daeth allan o'r llieiniau a'u gadael yn eu lle, fel y daw pili pala allan o'r crysalis.

## Ymddangosiadau Iesu ar ôl ei atgyfodi

Merched yn ei weld (Mathew 28:8–10) a neges yr angel (Mathew 28:5–7).

Mair Magdalen yn canfod y maen wedi ei dreiglo (Ioan 20:2) yn dweud wrth Pedr (Ioan 20:3), ac yn gweld Iesu (Ioan 20:11–18).

Pedr ac Ioan yn canfod y bedd gwag (Ioan 20:3–10).

Cleopas a'i gyfaill ar y ffordd i Emaus (Luc 24:36–43).


Deg disgybl yn gweld Iesu (Luc 24:36–43).

Unarddeg disgybl yn gweld Iesu (Ioan 20:26–31).

Brecwast ar y traeth (Ioan 21:1–23).

Unarddeg disgybl yng Ngaliilea (Mathew 28:16–20).

Mwy na 500 yn gweld Iesu (1 Cor. 15:6) Iago (1 Cor. 15:7).



Roedd Iesu wedi atgyfodi. Ymddangosodd o flaen ei ddisgyblion pan roedden nhw wedi'u cloi mewn ystafell.

Fedri di ddod o hyd i ddeg gorriad yn cuddio yn y llun?

Darllen Ioan 20:19-20.

# Gwers 39 – Mae Iesu yn fyw!

## Sul y Pasg | Ioan 20:1–9

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 164



#### Gwers 39

Mae Iesu'n fyw!

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Mae Iesu'n fyw! Tud 164

#### BEIBL LLIW STORI DUW

Y bedd gwag tud 272

#### BEIBL BACH STORI DUW

Syrpreis hyfryd Duw tud 310

#### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Diwrnod Hapus tud 140

#### BEIBL LLIW Y PLANT

Atgyfodiad Iesu tud 276

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Sul y Pasg tud 206

#### BEIBL BACH I BLANT

Y diwrnod mwyaf hapus tud 442

#### Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

Mae'n fyw ( 333) tud 378

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Sul y Pasg tud 206

### I Ddechrau ...

#### Marblis Siocled

Bydd angen pacedi o "mini eggs" a sticeri. Rhwch sticer rhywle ar y bwrdd, a rhannwch yr wyau fel bod gan bob plentyn set o wyau lliw gwahanol. Os oes gennych grŵp mawr, cewch eu rhannu yn grwpiau llai neu chwarae mwy nag un rownd.

Mae'r cystadleuwyr yn cymryd tro i rollo wy at y sticer. Nod y gêm yw cael yr wyau mor agos at y sticer ag sy'n bosibl. Y person sy'n ennill y rownd sy'n cael bwyta'r wyau!

Gofynnwch i'r plant pam ein bod yn rhoi wyau siocled adeg y Pasg? Mae'r ŵy yn symbol o fywyd newydd ac mae'n ein hatgoffa fod Iesu wedi dod yn ôl o'r bedd yn fyw.

### Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio Beibl Gweithgaredd y Plant neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

#### Yr Atgyfodiad: trwy lygaid Mair

Bydd angen saith swigen siarad wag i ysgrifennu geiriau Mair ynddynt a'r Beibl Gweithgaredd, hefyd, wy Pasg, siapiau wyau papur plaen, pensiliau.

Esboniwch fod Mair yn un o ffrindiau pennaf Iesu. Roedd Mair wedi bod wrth y groes gyda rhai merched eraill. Gofynnwch i'r plant sut, yn eu tyb nhw, oedd Mair yn teimlo i weld ei ffrind pennaf yn marw? Esboniwch fod gan y stori hon ddiwedd glo hapus iawn, iawn, a chawn ddarganfod beth ddigwyddodd nesaf trwy lygaid Mair.

Edrychwch ar y cyfeirnodau canlynol, un ar y tro:

Marc 16:1; Marc 16:3; Marc 16:4; Marc 16:5; Ioan 20:14–16; Ioan 20:18.

Gall y plant edrych ar yr adnod i weld beth wnaeth Mair, beth ddywedodd Mair neu beth a welodd hi. Ysgrifennwch atebion y plant yn y swigod. Anogwch y plant i ddyfalu sut fyddai Mair wedi teimlo neu feddwl. Gosodwch y swigod o amgylch llun Mair gan drafod eu cynnwys.

## Cymhwyso'r stori

Dangoswch wy Pasg i'r plant gan ofyn iddynt a ydyn nhw'n cofio arwyddocâd yr wyau? Mae'r wy yn symbol o fywyd newydd. Cafodd Iesu fywyd newydd gan ei Dad, Duw.

Esboniwch wrth y plant fod Duw wedi dod â'i Fab yn ôl yn fyw i ddangos bod Iesu wedi delio gyda'n pechod. Atgoffwch y plant o gymhwysiad stori'r wythnos ddiwethaf. Mae Duw yn fwy pwerus na marwolaeth hyd yn oed. Mae'r ffaith fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw yn golygu ei fod ef yn gallu rhoi bywyd newydd inni – bywyd heb ein pechod.

Rhowch bapur siâp wy bach i bawb. Gofynnwch iddynt ysgrifennu rhywbeth maent wedi ei ddysgu o'r hanes heddiw. Gludwch yr wyau bach ar siâp basged gyda'r adnod wedi'i hysgrifennu arni'n barod. Darllenwch yr adnod gyda'ch gilydd.

Byddai'n braf cael wy bach i'r plant fynd adref neu i'w fwyta yn y dosbarth. Wrth i'r plant ddiolch i chi am yr wy, cewch ymateb drwy ddweud, "Diolch bod Iesu'n fyw."

## Gweddi

Goleuni'r Byd

Bydd angen kannwyll sy'n ail gynnau ei hun, a matsis.

Taniwch y gannwyll ac atgoffwch y plant o'r adnod, 'Myfi yw goleuni'r byd' ac ystyr yr adnod.

Diffoddwch y gannwyll ac esboniwch pan fu farw Iesu, roedd y diafol yn meddwl ei fod wedi diffodd golau Iesu. Ond, yn union fel y mae'r gannwyll yma'n ail gynnau, daeth Iesu yn ôl yn fyw. Roedd Iesu'n gryfach na marwolaeth hyd yn oed.

## Cân

"Pan rwy'n cofio", Tyrd i Ddathlu, rhif 27.

## Cwis

Bydd angen rhestr o gwestiynau, siâp coron i bob tîm, dis, sticeri neu siapiau gludiog (gemau).

Rhannwch y plant yn dimoedd, gyda choron yr un. Gofynnwch y cwestiynau i'r timoedd yn eu tro. Os byddant yn cynnig ateb cywir, caiff un aelod daflu'r dis a chymryd y nifer yna o sticeri/siapiau i 'addurno'r goron. Os na fydd ateb cywir, gofynnwch yr un cwestiwn i'r tîm nesaf.

Parhewch nes bod y cwestiynau wedi cael eu gofyn. Cyfrwch faint o emau sydd gan bob tîm a rhowch wobwr fechan i'r enillwyr.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Iesu'n codi o farw'n fyw* tud. 120

### Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pasg: Iesu'r Brenin

### Tafleuni gwefan amserbeibl.org

Cyfres a, B a C – Y Groes a Iesu'n Marw

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 48: Y Pasg Cyntaf a Newyddion Da lawn

### Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 58: Y Diwrnod mwyaf Hapus

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb tud 352

### Llyfrau Stori

Stori'r Pasg i Blant Bach  
Stori'r Pasg  
Rhywun Arbennig lawn  
Y Pasg Cyntaf

